

Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Hywel Samuel and Associates,
Practis Deintyddol Sgwâr Loudoun,
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r
Fro

Dyddiad yr arolygiad: 31 Mawrth 2025

Dyddiad cyhoeddi: 01 Gorffennaf 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	8
	• Ansawdd Profiad y Claf	8
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	12
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	17
4.	Y camau nesaf	20
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	21
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	22
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	23

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Sgwâr Loudoun Hywel Samuel and Associates, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 31 Mawrth 2025.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o Arolygwyr Gofal Iechyd AGIC ac un Adolygydd Cymheiriaid Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cafwyd cyfanswm o 11 o ymatebion gan gleifion yn y practis hwn. Nid atebodd rhai o'r ymatebwyr rai o'r cwestiynau, gan olygu nad oedd ymatebion ar gyfer pob cwestiwn. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad. Gwnaethom hefyd siarad â staff yn ystod ein harolygiad i glywed ein barn ar weithio i'r gwasanaeth.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Cafwyd adborth cadarnhaol iawn gan gleifion yn holiaduron AGIC am y gofal a'r gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol. Dywedodd pob un o'r ymatebwyr fod y gwasanaeth yn 'dda' neu'n 'dda iawn.'

Roedd gwybodaeth a hysbysiadau perthnasol yn cael eu harddangos gan sicrhau bod cleifion yn cael gwybodaeth addas am y gwasanaeth. Gwelsom fod y staff yn trin eu cleifion â charedigrwydd, urddas a pharch drwy gydol yr arolygiad.

Dywedwyd wrthym fod modd i gleifion gael triniaeth frys a oedd wedi'i threfnu i mewn i amserlenni'r deintyddion drwy ffonio'r practis neu fynd yno mewn person. Roedd rhestr byr rybudd ar waith er mwyn defnyddio apwyntiadau a oedd wedi'u canslo.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Trefnu bod biniau gwastraff nwyddau mislif ar gael yn nhoiledau'r cleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Mae gwybodaeth dda ar gael i gleifion mewn sawl iaith sy'n berthnasol i'r ddemograffeg leol.
- Mae'r practis wedi'i leoli mewn man canolog yn y gymuned sy'n rhoi mynediad hawdd i bob claf.
- Ceir trefniadau hygyrchedd da i gleifion ag anawsterau symudedd.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y practis deintyddol mewn cyflwr da, yn lân ac wedi'i addurno i safon uchel. Roedd yr ardaloedd i gleifion yn daclus ac yn rhydd o beryglon.

Gwelsom fod trefniadau addas ar gael yn y practis i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Roedd y staff yn glir o ran eu rolau a'u cyfrifoldebau gwaith.

Roedd rhagofalon digonol yn cael eu cymryd i sicrhau cydymffurfiaeth diogelwch tân yn y practis. Gwelsom fod y staff yn cael eu hyfforddi'n briodol i ddelio ag argyfyngau meddygol gyda chyfarpar at ddefnydd argyfwng ar gael yn hawdd ac mewn cyflwr da.

Roedd polisïau a gweithdrefnau priodol ar waith i ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed, ac roedd staff wedi cael eu hyfforddi'n briodol yn y pwnc. Roedd cofnodion deintyddol y cleifion yn cael eu storio'n ddiogel.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cymryd gwiriadau tymheredd rheolaidd o'r oergell sy'n storio meddyginiaeth
- Datblygu gweithdrefnau uwchgyfeirio i'r staff eu dilyn os bydd y tymheredd y tu allan i'r ystod dderbyniol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Defnyddio rhestrau gwirio diogelwch a argymhellir er mwyn helpu i atal achosion o dynnu'r dannedd anghywir
- Roedd cofnodion deintyddol y cleifion yn cael eu cynnal i safon uchel
- Roedd trefniadau diogel ar waith mewn perthynas â gwaith cynnal a chadw a phrofi cyfarpar pelydr-X, gan gynnwys arwyddion priodol uwchlaw drysau'r ddeintyddfa.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom bractis oedd yn cael ei redeg yn dda gyda strwythur rheoli clir, a staff gyda chymysgedd sgiliau priodol i ddarparu'r gwasanaethau deintyddol a gynigir.

Roedd proses recriwtio ar waith ond gwelsom rai diffygion yn ffeiliau'r staff yr oedd angen eu gwella. Gwelsom fod proses sefydlu addas ar gyfer dechreuwyr newydd, ynghyd â thystiolaeth o arfarniadau staff a chydymffurfiaeth dda gyda hyfforddiant gorfodol.

Roedd y practis wedi'i leoli gyda gwasanaethau gofal iechyd eraill mewn canolfan gofal iechyd integredig gymunedol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau y ceir geirdaon ysgrifenedig cyn penodi pob cyflogai newydd
- Sicrhau y caiff tystiolaeth o frechiadau Hepatitis B a chanlyniadau profion y staff eu cynnal yn llawn.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd cynllun da o archwiliadau yn cael eu cynnal fel rhan o weithgarwch gwella ansawdd y practis
- Roedd gan y practis fynediad i bractis cangen fel rhan o'u trefniadau parhad busnes.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Roedd yr ymatebion a gafwyd i holiadur AGIC yn gadarnhaol ar y cyfan. Dywedodd pob un o'r 11 o ymatebwyr fod y gwasanaeth yn 'dda' neu'n 'dda iawn.'

Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

"Mae'r tîm yn hynod broffesiynol ac yn ddymunol iawn."

"Mae [Dentist] yn wych! Rwy'n glaf nerfus iawn ac mae ei natur ofalgar ac addfwyn wedi fy annog i fynychu'n rheolaidd. Trueni na fyddem wedi cwrdd â hi 10 mlynedd yn gynt! Mae hi mor broffesiynol hefyd!"

Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Hybu Iechyd

Gwelsom fod gwybodaeth berthnasol am ofal iechyd deintyddol ar gael yn yr ardaloedd aros i gleifion, gan gynnwys canllawiau ar hylendid y geg, deiet a rhoi'r gorau i smygu. Roedd gwybodaeth i gleifion a'r broses gwyno ar gael mewn sawl iaith sy'n berthnasol i'r ddemograffeg leol. Roedd gwybodaeth am daliadau triniaethau hefyd yn cael ei harddangos.

Roedd gwefan y practis yn cynnwys llawer o wybodaeth ddefnyddiol am y gwasanaeth ac roedd yn cynnwys copi o ddatganiad o ddiben y practis.

Roedd enwau aelodau presennol y tîm deintyddol, a'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, wedi'u harddangos yn yr ardal aros i gleifion. Gwelsom arwyddion yn rhoi gwybod i gleifion ac ymwelwyr â'r practis nad oedd smygu yn cael ei ganiatáu ar y safle, yn unol â'r ddeddfwriaeth.

Dywedodd yr 11 o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC i gleifion wrthym fod y staff yn esbonio gofal y geg wrthynt mewn ffordd y gallent ei deall a bod y staff wedi rhoi cyfarwyddiadau ôl-ofal iddynt ar sut i gynnal iechyd y geg.

Gofal Urddasol a Pharchus

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom y staff yn trin y cleifion â charedigrwydd a pharch. Gwelsom fod drysau'r deintyddfeydd yn cael eu cau pan oedd deintyddion yn gweld y cleifion, a oedd yn hyrwyddo preifatrwydd ac urddas y cleifion. Roedd gorchuddion priodol ar y ffenestri yn un o'r deintyddfeydd, ac nid oedd ffenestri yn y llall.

Roedd y ffenestr i roi gwybod i'r dderbynfa eich bod wedi cyrraedd yn y coridor a oedd yn cael ei ddefnyddio fel ardal aros i gleifion. Dywedwyd wrthym y gallai trafodaethau a galwadau ffôn cyfrinachol gael eu cynnal mewn deintyddfa wag.

Roedd egwyddorion ymarfer moesegol craidd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (GDC) i'w gweld yn glir yn yr ardal aros, yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Roedd pawb a gwblhaodd holiadur AGIC i gleifion yn teimlo bod y staff wedi eu trin ag urddas a pharch yn y practis a bod y staff wedi gwrandao arnynt ac wedi ateb eu cwestiynau.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC i gleifion eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael a risgiau a manteision yr opsiynau hynny. Dywedodd pob un o'r ymatebwyr hefyd fod y costau wedi cael eu cyfleu'n glir a bod eu hanes meddygol yn cael ei wirio cyn dechrau triniaeth.

Dywedodd pob un o'r cleifion wrthym eu bod wedi cymryd cymaint o ran ag yr hoffent mewn penderfyniadau ynghylch eu triniaeth.

Amserol

Gofal Amserol

Dywedwyd wrthym fod tîm y dderbynfa yn rhoi gwybod i gleifion os oedd unrhyw oedi mewn amseroedd apwyntiadau.

Roedd oriau agor y practis yn cael eu harddangos yn glir a gellid eu gweld o'r tu allan i'r adeilad. Roedd y rhif ffôn cyswllt i'w ddefnyddio gan gleifion pe bai angen triniaeth a gofal deintyddol brys arnynt y tu allan i oriau i'w weld yn glir hefyd.

Dywedwyd wrthym fod slotiau apwyntiadau brys ar gael ar gyfer cleifion. Roedd modd cael y rhain drwy ffonio'r practis erbyn 08:30am neu drwy fynd i'r dderbynfa mewn person.

Dywedodd yr 11 o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC i gleifion ei bod hi'n hawdd cael apwyntiad pan oedd angen un arnynt. Er y dywedodd y mwyafrif o'r

ymatebwyr eu bod yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai problem ddeintyddol frys yn codi, dywedodd un ymatebydd nad oedd yn gwybod.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Gwelsom fod gwybodaeth ysgrifenedig yn cael ei harddangos yn Gymraeg, yn Saesneg ac mewn sawl iaith arall yn y practis, gan gynnwys Tsieinëeg, Bengaleg ac Wrcreineg. Dywedwyd wrthym fod gwasanaethau cyfieithu ar gael i gleifion nad Saesneg oedd eu hiaith gyntaf. Gwelsom fod gwybodaeth ar gael mewn fformatau eraill fel print mawr a bod system dolen sain ar waith er mwyn helpu cleifion ag anawsterau clywed.

Dywedwyd wrthym fod sawl aelod o'r staff a oedd yn cael ei gyflogi yn y practis yn gallu siarad Cymraeg a bod y staff yn gallu siarad ieithoedd eraill.

Mae'r practis yn trefnu apwyntiadau dros y ffôn neu wyneb yn wyneb yn y dderbynfa, gan sicrhau y gallai cleifion heb fynediad at ddyfeisiau digidol drefnu triniaeth. Nid oedd cyfleuster trefnu apwyntiadau ar-lein ar gael.

Hawliau a Chydraddoldeb

Gwelsom fod gofal a thriniaethau deintyddol yn cael eu darparu yn y practis mewn modd a oedd yn cydnabod anghenion a hawliau'r cleifion a dywedwyd wrthym fod pawb yn cael eu trin yn deg. Roedd gan y practis bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith a oedd hefyd yn cwmpasu materion gwahaniaethu, bwllo ac aflonyddu yn y gweithle.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC i gleifion wrthym nad oeddent wedi profi gwahaniaethu wrth gael gafael ar y gwasanaethau a ddarperir gan y practis.

Roedd y practis mewn canolfan gofal iechyd wedi'i hadeiladu i bwrpas gyda mynediad i bobl anabl wedi'i ystyried drwyddi draw. Roedd yr adeilad mewn lleoliad canolog i'r gymuned gyda mynediad hawdd i gerddwyr o breswylfeydd lleol. Roedd baeau parcio ceir ymroddedig ar gael i bobl anabl nesaf at yr adeilad ac roedd lle parcio talu ac arddangos ar gael wrth ochr y stryd gerllaw.

Roedd drysau awtomataidd i fynedfa flaen yr adeilad gyda grisiau a mynediad drwy lifft i'r llawr cyntaf lle'r oedd y practis deintyddol wedi'i leoli. Roedd lloriau gwastad a drysau llydan yn rhoi mynediad hawdd i gleifion mewn cadeiriau olwyn, tra roedd yr ardal aros i gleifion yn lân gyda digon o seddau ar gael. Dywedwyd wrthym mai cyfrifoldeb tîm cyfleusterau'r bwrdd iechyd lleol oedd y toiledau.

Gwelsom fod y toiled hygyrch i gleifion yn lân, yn fawr a bod cyfarpar priodol ynddynt gyda system larwm tynnu cortyn a chanllawiau. Fodd bynnag, nid oedd biniau gwastraff nwyddau mislif ar gael yn nhoiledau'r menywod.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig drefnu bod biniau gwastraff nwyddau mislif ar gael yn nhoiledau'r cleifion.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli Risg

Dywedwyd wrthym fod y ganolfan gofal iechyd yn cael ei chyd-reoli gan y bwrdd iechyd lleol a Chymdeithas Tai Cymunedol Caerdydd (CCHA). Gwelsom fod y practis deintyddol mewn cyflwr da ar y cyfan, a bod yr ystafelloedd trin ar y llawr cyntaf yn fawr ac yn gyfforddus. Roedd pob ystafell drin wedi'i haddurno a'i dodrefnu i safon dda gyda chynllun cyson ym mhob un. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y system tymheru aer yn gweithio yn un o'r ystafelloedd trin ond roedd y ddeintyddfa wedi rhoi gwybod i'r bwrdd iechyd bod angen ei thrwsio.

Gwelsom fod yr ardaloedd i gleifion yn glir ac yn rhydd o beryglon a gwelwyd bod trefniadau addas i'r staff newid eu dillad ac i storio eu heiddo personol. Roedd polisi iechyd a diogelwch cynhwysfawr a chyfredol ar waith ac roedd poster iechyd a diogelwch cymeradwy yn cael ei arddangos yn glir i'r staff ei weld. Gwelsom fod yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ar waith a bod tystysgrif yswiriant atebolrwydd gyfredol y cyflogwr yn cael ei harddangos.

Roedd polisi parhad busnes ar waith, ynghyd â gweithdrefnau i'w dilyn pe na fyddai'n bosibl darparu'r amrywiaeth lawn o wasanaethau yn sgil digwyddiadau brys fel methiant yn y system. Roedd hyn yn cynnwys mynediad i gangen o'u practis bellter byr i ffwrdd yng nghanol Caerdydd. Gwelsom fod yr arolygiad bob pum mlynedd o wifrau a'r Profion Offer Cludadwy yn gyfredol.

Gwelsom mai cyfrifoldeb CCHA oedd gwirio a chynnal a chadw'r cyfarpar diogelwch tân. Gwelsom fod asesiad risg tân wedi'i gynnal yn ddiweddar a bod y diffoddwyr tân i gyd wedi cael eu gwasanaethu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Gwelsom dystiolaeth o wiriadau rheolaidd o gyfarpar synhwyro tân a bod ymarferion tân yn cael eu cynnal, a bod yr allanfeydd tân yn glir ac nid oes dim yn eu rhwystro. Gwelsom nad oedd un aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelwch tân blyneddol. Gwnaethom drafod hyn gyda rheolwr y practis, a drefnodd i hyfforddiant gael ei gwblhau y diwrnod yn dilyn yr arolygiad.

Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi

Gwelsom fod yr ystafell aros a'r deintyddfeydd yn lân a'u bod wedi'u dodrefnu'n addas mewn ffordd a oedd yn hwyluso trefniadau glanhau effeithiol. Roedd cyfleusterau golchi dwylo priodol ar gael ym mhob deintyddfa ac yn y toiledau. Gwelsom fod cyfarpar diogelu personol (PPE) ar gael yn hwylus a bod amserlenni'n cael eu defnyddio i helpu prosesau glanhau effeithiol. Roedd polisi priodol ar gael mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau a dihalogi.

Dywedwyd wrthym fod gan y practis gymorth iechyd galwedigaethol addas ar gael i'r staff. Gwelsom fod y practis yn defnyddio chwistrellau Safety Plus i leihau'r risg o anafiadau gan offer miniog, ac roedd siartiau llif anafiadau nodwydd yn cael eu harddangos mewn ardaloedd clinigol i helpu'r staff pe bai anaf o'r fath yn digwydd.

Roedd ystafell ddihalogi bwrpasol a oedd yn cysylltu'n uniongyrchol â phob deintyddfa. Gwelsom fod system addas i gludo offer wedi'u defnyddio yn ddiogel rhwng y deintyddfeydd a'r ystafell ddihalogi. Cafodd trefniadau priodol ar gyfer dihalogi offer deintyddol amlbro eu disgrifio. Roedd tystiolaeth o wiriadau cyfnodol a chynnal a chadw'r cyfarpar dihalogi a gwelsom fod archwiliad atal a rheoli heintiau cyfredol wedi'i gynnal yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05).

Roedd trefniadau priodol ar waith i storio'r gwastraff clinigol a oedd yn cael ei gynhyrchu gan y practis gyda chontractau addas ar waith i'w waredu mewn ffordd ddiogel. Gwelsom fod trefniadau da i drin sylweddau a oedd yn ddarostyngedig i'r broses Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) a oedd yn cynnwys arddangos arwyddion priodol i rybuddio ynghylch perygl.

Gwnaethom gadarnhau bod pob aelod o'r staff a oedd yn gweithio yn y practis wedi cwblhau hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau, a gwelsom dystiolaeth o hyn yn y sampl o ffeiliau'r staff a welsom.

Roedd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC yn teimlo bod y lleoliad yn lân ac roedd yr holl ymatebwyr ond un yn teimlo bod mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn gyda'r ymatebydd arall yn dweud eu bod yn rhannol amlwg.

Rheoli Meddyginiaethau

Gwelsom fod polisi cyfredol ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau yn y practis. Roedd prosesau addas ar waith i gaffael, trin a gwaredu cyffuriau a gwelwyd bod unrhyw feddyginiaethau a oedd yn cael eu rhoi yn cael eu cofnodi yn nodiadau'r claf. Fodd bynnag, gwelsom fod rhai meddyginiaethau yn cael eu cadw mewn oergell heb glo ac nad oedd thermomedr i allu monitro tymereddau yn effeithiol. Gwnaethom godi hyn gyda'r uwch-reolwr a archebodd oergell a thermomedr newydd ar adeg yr arolygiad. Cawsom gadarnhad bod y rhain wedi'u derbyn y diwrnod canlynol.

Ymdriniwyd â'n pryder mewn perthynas â hyn yn ystod yr arolygiad. Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn [Atodiad A](#).

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wneud y canlynol:

- **Rhoi system ar waith i wirio a chofnodi tymereddau'r oergell yn rheolaidd**
- **Sicrhau bod gweithdrefnau uwchgyfeirio priodol ar waith os bydd y tymheredd y tu allan i'r ystod dderbyniol.**

Gwelsom fod polisi ysgrifenedig ar waith ar gyfer ymateb i argyfwng meddygol yn y practis a oedd yn seiliedig ar y canllawiau adfywio cenedlaethol cyfredol. Gwelsom dystiolaeth yn ffeiliau'r staff fod pob aelod o'r staff a oedd yn gweithio yn y practis wedi cwblhau hyfforddiant adfywio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Gwnaethom archwilio'r cyfarpar a'r meddyginiaethau i'w defnyddio mewn achos o argyfwng yn y practis a gwelsom fod system addas ar waith ar gyfer gwirio stociau a nodi pryd y mae angen cael meddyginiaethau a chyfarpar newydd. Gwelsom dystiolaeth o wiriadau cynnal a chadw a gwasanaethu gofynnol ar gyfer y silindrau ocsigen a bod y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant sylfaenol i'w defnyddio.

Gwelwyd bod y pecyn cymorth cyntaf yn drefnus a bod nifer priodol o swyddogion cymorth cyntaf wedi'u hyfforddi er mwyn sicrhau bod un ohonynt ar gael pe byddai staff yn absennol.

Rheoli Dyfeisiau a Chyfarpar Meddygol

Gwelsom fod cyfarpar addas ar gael yn y deintyddfeydd i ddarparu triniaethau deintyddol diogel ac effeithiol. Roedd y cyfarpar i'w weld yn lân ac mewn cyflwr da gyda droriau wedi'u trefnu'n dda a byrddau gwaith taclus.

Roedd dogfennaeth ar gael i ddangos bod trefniadau ar waith i ddefnyddio'r cyfarpar pelydr-X yn ddiogel a bod dyddiadau cynnal a chadw a phrofi'r cyfarpar yn gyfredol. Gwelsom fod arwyddion pelydr-X priodol wedi'u gosod ar ddrysau'r ddwy ddeintyddfa a bod asesiad risg ymbelydredd cyfredol ar waith.

Gwelsom fod cyfiawnhad a gwerthusiadau clinigol ar gyfer pob cysylltiad pelydr-X wedi'u cofnodi yng nghofnodion y claf a gwelsom fod rhaglen sicrhau ansawdd ar waith mewn perthynas â phelydrau-X a oedd yn cynnwys cysylltiadau anfwriadol, lefelau dosau ac ansawdd delweddau.

Gwnaethom gadarnhau bod pob aelod o staff a oedd yn gysylltiedig â'r broses o gynnal archwiliadau pelydr-X wedi cwblhau'r hyfforddiant perthnasol, a gwelsom dystiolaeth o hyn yn y sampl o ffeiliau staff a welsom.

Diogelu Plant ac Oedolion

Roedd arweinydd diogelu ymroddedig wedi'i benodi gan y practis gyda mynediad i ganllawiau diweddaraf Diogelu Cymru Gyfan. Gwelsom fod polisi addas ar waith mewn perthynas â diogelu a oedd yn cynnwys y manylion cyswllt ar gyfer y tîm diogelu lleol. Gwnaethom drafod y dylai siartiau llif diogelu fod ar gael ym mhob deintyddfa er mwyn eu defnyddio'n hawdd os bydd pryder.

Gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant priodol am brosesau amddiffyn plant ac oedolion, ac roeddent yn ymwybodol ynghylch gyda phwy i gysylltu pe bai ganddynt bryder.

Effeithiol

Gofal Effeithiol

Gwelsom fod digon o staff wedi'u hyfforddi ar gael yn y practis i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Gwelsom fod y practis yn defnyddio'r rhestrau gwirio a argymhellir i leihau'r risg o dynnu'r dant anghywir a dywedwyd wrthym fod cyngor proffesiynol perthnasol ar gael i'r staff fel y bo angen. Cawsom sicrwydd bod canllawiau rheoleiddiol a statudol yn cael eu dilyn pan oedd triniaeth yn cael ei darparu.

Cofnodion Cleifion

Gwelsom fod system addas ar waith i helpu i sicrhau bod y cofnodion i gleifion yn cael eu rheoli a'u storio'n ddiogel. Dywedwyd wrthym fod y cofnodion yn cael eu cadw am y cyfnod priodol o amser yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Gwnaethom edrych ar gofnodion deintyddol saith claf. Roedd pob un wedi'i gynnal i safon uchel ac roedd y nodiadau'n glir ac yn ddarllenadwy. Roedd pob cofnod a welsom yn cynnwys y wybodaeth angenrheidiol gan gynnwys dynodyddion cleifion priodol, hanes deintyddol blaenorol a'r rheswm dros fod yn bresennol. Roedd y cofnodion hefyd yn dangos tystiolaeth o waith cynllunio triniaeth, gan gynnwys opsiynau ar gael, a bod cydsyniad ar sail gwybodaeth wedi'i dderbyn gan gleifion cyn bob triniaeth.

Effeithlon

Effeithlon

Dywedwyd wrthym fod trefniadau ar waith i sicrhau bod y practis yn gweithredu mewn ffordd effeithlon a oedd yn cynnal safon y gofal. Gwelsom fod systemau da ar waith i sicrhau bod atgyfeiriadau yn cael eu monitro a'u trin yn brydlon.

Roedd rhestr byr rybudd yn cael ei defnyddio i alluogi'r staff i ddefnyddio apwyntiadau a oedd wedi'u canslo. Dywedwyd wrthym fod y practis yn aros i

gysylltiad rhyngrwyd annibynnol gael ei osod er mwyn eu galluogi i anfon nodiadau atgoffa digidol i gleifion.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Roedd strwythurau rheoli clir ar waith yn y practis, dan gyfarwyddyd y prif ddeintydd a oedd hefyd yn berchennog ac yn rheolwr cofrestredig. Ar ddiwrnod ein harolygiad, gwelsom fod rheolwr y practis a'r rheolwr cofrestredig yn agored i'r staff a'i bod yn hawdd mynd atynt.

Roedd gan y practis ddatganiad o ddiben a thaflen wybodaeth i gleifion cyfredol, yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Roedd y rhain yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i gleifion am y gwasanaethau a gynigir yn y practis ac roedd ar gael mewn sawl iaith.

Gwelsom dystiolaeth bod cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal, a bod y cofnodion yn cael eu cofnodi er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael y wybodaeth ddiweddaraf. Cafodd trefniadau addas eu disgrifio ar gyfer rhannu gwybodaeth berthnasol a hysbysiadau diogelwch gofal iechyd brys â staff.

Gwelsom fod amrywiaeth gynhwysfawr o bolisiau a gweithdrefnau ar gael, a oedd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Gwelsom fod y broses rheoli fersiynau'n dda ac roeddent wedi'u llofnodi gan y staff i gadarnhau eu bod wedi darllen a deall y cynnwys.

Y Gweithlu

Gweithlu Medrus a Galluog

Mae rheolwr practis, dau ddeintydd, un hylenydd rhan-amser a thair nyrs ddeintyddol yn nhîm y practis. Roeddem o'r farn bod cymysgedd sgiliau a nifer y staff yn briodol ar gyfer y gwasanaethau deintyddol a ddarperir.

Roedd gan y practis broses recriwtio a oedd yn nodi'r holl ddogfennaeth y mae'n rhaid iddi fod ar gael mewn perthynas â staff sy'n gweithio yn y practis deintyddol. Dangoswyd negeseuon e-bost gan asiantaethau i ni a oedd yn cadarnhau bod dogfennaeth briodol ar gael ar gyfer unrhyw staff asiantaeth a oedd yn cael eu defnyddio pe bai'r practis yn gofyn a thrafodwyd rhoi proses ar waith i wirio'r cofnodion hyn ddwywaith.

Gwnaethom edrych ar ffeiliau personél staff sy'n gweithio yn y practis. Gwelsom fod pob aelod o'r staff yn meddu ar dystysgrif Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) dilys, tystiolaeth o yswiriant indemniad, a, lle y bo'n berthnasol, cofrestriad

cyfredol gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Fodd bynnag, gwelsom fod geirdaon cyflogaeth ysgrifenedig ar goll ar gyfer y rhan fwyaf o'r staff.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau ei fod yn cael geirdaon perthnasol cyn cyflogi aelod newydd o staff i'r practis.

Er bod tystiolaeth o imiwneiddiadau hepatitis B a chofnodion sgrinio iechyd eraill i'w gweld ar gyfer y rhan fwyaf o'r staff, gwelsom nad oedd rhai cofnodion yn glir neu roeddent yn anghyflawn. Roedd un cofnod yn cynnwys llythyr ac roedd cofnod o'r ail imiwneiddiad a chanlyniad prawf gwaed ar goll o un arall.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau eu bod yn cadw tystiolaeth lawn o frechiadau a chanlyniadau profion hepatitis y staff.

Roedd rhaglen sefydlu briodol ar waith ar gyfer staff newydd i helpu i sicrhau eu bod yn ymwybodol o bolisiau'r practis a'u bod yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau. Gwelsom fod y staff wedi mynychu hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'w rolau ac roedd tystiolaeth o arfarniadau staff blynyddol, ond roedd y rhain yn cael eu cofnodi'n aml ar ffurflenni 'dychwelyd i'r gwaith'. Gwnaethom siarad â'r uwch-aelodau o staff a thrafodwyd sicrhau eu bod yn defnyddio'r ffurflenni priodol at y diben hwn.

Diwylliant

Ymgysylltu â Phobl, Adborth a Dysgu

Cafodd y trefniadau eu disgrifio ar gyfer ceisio adborth gan y cleifion am eu profiadau o ddefnyddio'r practis. Roedd y rhain yn cynnwys adolygiadau ar y cyfryngau cymdeithasol ac arolwg i gleifion bob chwe mis. Gwelsom fod holiadur boddhad cleifion ar gael ar wefan y practis. Dywedwyd wrthym fod adborth yn cael ei adolygu a'i drafod yn rheolaidd fel rhan o gyfarfodydd tîm y practis.

Gwelsom fod gweithdrefnau cwyno'r practis yn cael eu harddangos yn yr ardal aros i gleifion a gwelsom fod y rhain ar gael mewn sawl iaith ac yn cynnwys enw'r person a oedd wedi'i benodi i ymdrin â chwynion. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd manylion sefydliadau eraill y gallai'r cleifion gysylltu â nhw i gael help a chymorth wedi'u cynnwys. Gwnaethom godi hyn â rheolwr y practis yn ystod yr arolygiad a ddiwygiodd y ddogfen ar unwaith.

Gwelsom fod cwynion yn cael eu cofnodi mewn ffolder cwynion pwrpasol a gwelsom fod y broses yn cael ei dogfennu'n briodol a'i bod yn unol â gweithdrefn y practis, ond gwnaethom drafod y gallai'r ffeil fod wedi'i threfnu'n well er mwyn helpu gydag unrhyw broses adolygu.

Gwelsom fod polisi addas ar waith yn y practis mewn perthynas â'r Ddyletswydd Gonestrwydd, a oedd yn rhoi arweiniad i'r staff pe bai digwyddiad. Cawsom wybod na fu unrhyw ddigwyddiad lle y bu angen arfer y broses Ddyletswydd Gonestrwydd.

Gwybodaeth

Llywodraethu Gwybodaeth a Thechnoleg Ddigidol

Roedd gan y practis bolisi Diogelu Data ar waith a oedd yn cwmpasu pob agwedd ar y ffordd yr oedd y practis yn ymdrin â gwybodaeth bersonol ac yn ei phrosesu. Gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi llofnodi i gadarnhau eu bod wedi darllen y ddogfen hon ac yn deall eu dyletswyddau o ran cadw gwybodaeth i gleifion yn ddiogel.

Disgrifiwyd trefniadau priodol ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau diogelwch cleifion i'r bwrdd iechyd lleol, ac i rannu gwybodaeth am ddiogelwch cleifion gyda thîm y practis.

Dysgu, Gwella ac Ymchwil

Gweithgareddau Gwella Ansawdd

Gwelsom fod cynllun da ar gyfer archwiliadau ar waith fel rhan o weithgarwch gwella ansawdd y practis. Cawsom enghreifftiau gan gynnwys archwiliadau rhoi'r gorau i smygu, gwastraff gofal iechyd, cofnodion clinigol, a mynediad i bobl anabl.

Dywedwyd wrthym hefyd fod y practis wedi cwblhau archwiliad clinigol o ragnodi gwrthfotigau a radiograffeg.

Dull Systemau Cyfan

Gweithio mewn Partneriaeth a Datblygu

Roedd y practis wedi'i leoli gyda gwasanaethau gofal iechyd eraill mewn canolfan gofal iechyd integredig gymunedol. Disgrifiwyd trefniadau addas ar gyfer ymgysylltu rhwng y practis a darparwyr gofal sylfaenol eraill, gan hyrwyddo gofal iechyd cydlynol gwell yn y gymuned.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Gwelsom fod rhai meddyginiaethau yn cael eu cadw mewn oergell heb glo ac nad oedd thermomedr ynddi i allu monitro tymereddau yn effeithiol.	Gallai'r cleifion wynebu risg am nad yw'r meddyginiaethau'n cael eu storio'n briodol yn y practis.	Gwnaethom godi'r mater hwn ar unwaith â'r uwch-aelodau o staff.	Archebwyd oergell a thermomedr newydd ar adeg yr arolygiad.

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Hywel Samuel and Associates, Practis Deintyddol Sgwâr Loudoun

Dyddiad yr arolygiad: 31 Mawrth 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.					

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Hywel Samuel and Associates, Practis Deintyddol Sgwâr Loudoun

Dyddiad yr arolygiad: 31 Mawrth 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Nid oedd biniau gwastraff nwyddau mislif ar gael yn nhoiledau'r menywod.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig drefnu bod biniau gwastraff nwyddau mislif ar gael yn nhoiledau'r cleifion.	Rheoliad 13(1)(a) a (22)(a) a (c)	Diweddarwyd y polisi ym mis Gorffennaf 2024.	Yasmin Begum	28/05/2025
Gwelsom fod rhai meddyginiaethau yn cael eu cadw mewn oergell heb glo ac nad oedd thermomedr ynddi i allu monitro tymereddau yn effeithiol. D.S. Archebwyd oergell a thermomedr newydd ar	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wneud y canlynol: - Rhoi system ar waith i wirio a chofnodi tymereddau'r oergell yn rheolaidd - Sicrhau bod gweithdrefnau uwchgyfeirio priodol ar	Rheoliad 13(4)(a)	Darparwyd biniau nwyddau mislif gan CAV yn dilyn arolygiadau AGIC	Yasmin Begum	28/05/2025

adeg yr arolygiad. Atodiad A.	waith os bydd y tymheredd y tu allan i'r ystod dderbyniol.				
Gwelsom fod geirdaon cyflogaeth ysgrifenedig ar goll ar gyfer y rhan fwyaf o'r staff.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau ei fod yn cael geirdaon perthnasol cyn cyflogi aelod newydd o staff i'r practis.	Rheoliad 18(2)(e) ac Atodlen 3, Rhan 1(3)	- Crëwyd cofnod tymereddau oergell dyddiol i Nyrsys ei gwblhau i sicrhau bod yr oergell ar y tymheredd cywir. - Os oedd tymheredd yr oergell y tu allan i ystod dderbyniol, gallwn ddefnyddio oergell y Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol dros dro i gadw'r cyffur brys ynddi ac archebu oergell newydd a fyddai'n cael ei danfon y diwrnod nesaf. Neu, mae practis	Yasmin Begum	28/05/2025

			Golate o fewn taith gerdded o 10 munud o Sgwâr Loudoun a gallwn gadw'r cyffuriau brys yn oergell Golate nes i ni gael oergell arall.		
Gwelsom fod rhai cofnodion Hepatitis B yn aneglur neu'n anghyflawn.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau ei fod yn cynnal tystiolaeth lawn o frechiadau a chanlyniadau profion Hepatitis y staff.	Rheoliad 13 (6)(c)(ii)	Gofynnwyd am eirdaon cyflogaeth ond pan na fydd y canolwr yn ymateb, byddwn yn dogfennu hyn fel gofynnwyd am eirda ond ni chafwyd ymateb.	Yasmin Begum	28/05/2025

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Yasmin Begum

Teitl swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 28/05/2025